OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 3452 (Cy. 313)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006

Wedi'u gwneud	- -	*21 Rhagfyr 2006*
Yn dod i rym	- -	*31 Rhagfyr 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran Polisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2006.

Diwygio Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2006

2.—(1) Mae Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2006(**3**) wedi'u diwygio'n unol â'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 16(4), yn lle "1 January 2007" rhodder "1 Ebrill 2007".

(**1**) O.S. 2005/2766.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 2006/1536 (Cy. 153).